# Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr
# Canllawiau i Ymgeiswyr

Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno cais i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr. Hefyd mae'n ddoeth edrych ar y nodiadau hyn yn ystod y broses ymgeisio.

**!Rydym yn argymell cysylltu â Rheolwr Cronfa Gwynt y Môr neu gynrychiolydd o Gronfa CGGC cyn llenwi neu gyflwyno cais!**

**Am ragor o help neu gyngor, cysylltwch â:**

**Tîm Grantiau CCGC: 01492 523845** **e-bost: grants@cvsc.org.uk**

**Beth yw Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr?**
Gwynt y Môr yw ail fferm wynt fwyaf y byd sy'n gweithredu ar y môr. Mae wedi'i lleoli oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Mae'n bartneriaeth gwerth £2 biliwn rhwng innogy SE (50%), Stadwerke München GmBH (30%), Macquarie Infrastructure and Real Assets (20%). Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr yw cyllid a ddarperir gan y bartneriaeth i gefnogi cymunedau'r arfordir yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Lansiwyd y cynllun ym mis Gorffennaf 2015 ac mae'n cael ei reoli'n annibynnol gan CGGC, mewn cydweithrediad â CGGD a CGGFf. Asesir y ceisiadau i'r gronfa gan banel ymgynghorol yn chwarterol. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol o bob un o'r siroedd ac arbenigwyr annibynnol.

## Crynodeb o'r gronfa

Bydd y gronfa'n cynnig:

**Grantiau Micro: -** grant hyd at £1,500

**Grantiau Bach: -** grant hyd at £20,000

**Grantiau Mawr: -** grant hyd at £75,000

Bydd gofyn i bob ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais.

Ar gyfer grwpiau sy'n ceisio grantiau dros £20,000 bydd angen gwybodaeth atodol ychwanegol hefyd.

**I gael gwybod mwy am sut mae Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr yn cael effaith yn lleol, ewch i'r dudalen Facebook bwrpasol: https://www.facebook.com/NWOffshoreCF neu dilynwch ni ar Instagram @NWOffshoreCF**

**Bydd angen i'ch cais gefnogi a chyflawni o leiaf un o dair thema'r gronfa:**

**Thema 1: Meithrin cymunedau cadarn, cydlynol a chynaliadwy**

- Lle mae pobl yn rhannu gweledigaeth gyffredin a gwahaniaethau pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u derbyn
- Lle mae pobl yn cael yr un cyfleoedd dim ots beth yw eu cefndir
- Lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn gallu datblygu perthnasoedd positif a chadarn
- Lle mae pobl eisiau byw a gweithio nawr ac yn y dyfodol
- Cymunedau ffyniannus a bywiog sy'n gwella ansawdd bywyd pobl

**Thema 2: Datblygu cymunedau ffyniannus a mentrus gyda thwf economaidd cadarn**

- Creu cyfleoedd gwaith newydd a/neu gynnal swyddi presennol
- Helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd neu wella eu sgiliau presennol
- Darparu cefnogaeth barhaus a gwasanaeth mentora i bobl sy'n dewis hyfforddiant a/neu gyflogaeth

**Thema 3: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb mewn cymunedau**

- Lleihau diweithdra a chynyddu incwm teuluoedd
- Gwella canlyniadau iechyd ac addysg teuluoedd sy'n byw mewn tlodi

**Sefydliadau Cymwys**

Cyn gwneud cais am grant, bydd rhaid i sefydliadau sydd yn yr ardal benodol a fydd yn elwa* fod â chyfansoddiad ysgrifenedig, cyfres o reolau neu ddogfen lywodraethu, a bydd rhaid iddynt fod â chyfrif mewn banc neu gymdeithas adeiladu (yn enw'r sefydliad) gyda dau lofnodwr o leiaf wedi'u pennu.

Dyma'r Sefydliadau Cymwys a gaiff wneud cais am gyllid:

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cynghorau Plwyf / Cymuned / Tref
- Mentrau cymdeithasol (gan gynnwys undebau credyd, cydweithfeydd, cwmnïau cymdeithasol, mentrau sy'n eiddo i'r gymuned, cwmnïau buddiannau cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu) ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail ddielw

*Gweler y map ar dudalen 6*

## Eithriadau

**Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer y canlynol:**

- Sefydliadau masnachol
- Unigolion
- Unrhyw waith a ystyrir fel cyfrifoldeb statudol, fel gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u hamserlennu a gwaith ar briffyrdd cyhoeddus a meysydd parcio cyhoeddus
- Prosiectau crefyddol eu ffocws, prosiectau sy'n cefnogi ymgyrch neu achos gan blaid wleidyddol, neu brosiectau a fydd yn dwyn anfri ar y cyllid neu'r cyllidwr
- Cyllid am yn ôl, h.y. prosiectau sydd wedi'u cwblhau eisoes, boed wedi talu amdanynt ai peidio
- Creu cronfa neu warged, i'w ddosbarthu a'i peidio
- Costau cysylltiedig â 'Throsglwyddo Asedau' o Awdurdodau Lleol (h.y. costau cyfreithiol, costau ymarferoldeb ac ati.) Er hynny, ar ôl trosglwyddo'r Ased, mae'r grŵp sy'n gyfrifol am yr ased yn gymwys i wneud cais am grant o'r gronfa
- Sefydliadau CIC gyda chyfranddaliadau
- Unrhyw fath o gwmni cofrestredig cyfyngedig trwy gyfranddaliadau
- Ni all sefydliadau heb ddau lofnodwr (ni ddylent fod yn perthyn) ar gyfer pob trafodiad ariannol wneud cais

## Llenwi'r Ffurflen Gais

### Adran 1: Amdanoch chi/eich sefydliad

- Beth yw eich rôl yn eich grŵp? (e.e. Ysgrifennydd, Cadeirydd, Trysorydd ac ati)
- Ydych chi'n rhan o sefydliad ehangach/aelod o unrhyw gorff rheoli cenedlaethol neu elusen?
- Pa fath o sefydliad ydych chi? (e.e. Clwb/cymdeithas wirfoddol, clwb/sefydliad ieuenctid, elusen, cyngor tref/cymuned, grŵp amgylcheddol ac ati)

### Adran 2: Am eich prosiect

- Dywedwch wrthym am eich prosiect -
- Beth ydych chi eisiau ei wneud? Pam ydych chi eisiau ei wneud? Os byddwch yn ymgymryd â'r prosiect, pa wahaniaeth fydd yn ei wneud yn eich cymuned / i'ch grŵp / yr amgylchedd / yr adeilad / i'ch aelodau?
- Dim ond drwy ddatgan yn glir beth rydych eisiau ei wneud fydd y panel yn deall eich prosiect yn iawn.
- Mae'n rhaid i chi dynnu sylw at fanteision y cynllun arfaethedig. Dim ond wedyn y gellir asesu eich cais o ran gwerth am arian.
- Peidiwch ag anghofio bod yn realistig am eich dyddiadau dechrau a gorffen.
- Cewch ysgrifennu mewn paragraffau, pwyntiau bwled neu barhau ar ddalen arall o bapur. Ceisiwch fod yn gryno a chadw at y prif bwyntiau.
- Pa dystiolaeth sydd gennych chi bod angen y prosiect? Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn? Er enghraifft, arolygon, ac ymgynghoriadau cymunedol
- Sut byddai'r cyllid hwn yn eich helpu chi i gyrraedd eich nod?

- Pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud? (e.e. prynu offer newydd yn galluogi i ni sefydlu dosbarth newydd i famau a phlant bach; bydd y prosiect yn galluogi ailagor yr adeilad gwag hwn fel neuadd i Guides a Sgowtiaid; bydd y prosiect yn creu 30 o aelodau newydd i'r clwb/swydd newydd ac ati).

## Adran 3: Manylion Ariannol

- Mae'r adran hon yn delio â chostau'r prosiect.
- Bydd angen 3 dyfyn-bris ar gyfer unrhyw eitem sy'n costio mwy na £5,000.
- Dylech restru pob eitem / elfen rydych yn ceisio cyllid ar ei chyfer.
- Cofiwch gynnwys y gost net, y TAW a chyfanswm y gost.
- Nodwch yn glir a yw eich sefydliad yn gallu adfer y TAW.
- Os ydych yn bwriadu adfer y TAW, dim ond cost net pob eitem ddylech ei nodi.
- Anogir ymgeiswyr i chwilio am gyllid cyfatebol ar gyfer eu prosiectau. Er hynny, nid yw hyn yn orfodol ac nid oes swm penodol o gyllid cyfatebol yn ofynnol.
- Rhestrwch yr holl gyllidwyr / cyllidwyr posib eraill, wedi neu heb eu cadarnhau, a'r swm yr ydych wedi gwneud cais amdano ganddynt.
- <u>Yn olaf, ar waelod yr adran hon, nodwch faint o grant rydych chi'n gwneud cais amdano.</u>

## Adran 4: Ceisiadau o £20,000 hyd at £75,000

**Yn ychwanegol at yr uchod, bydd yn ofynnol i grwpiau sy'n gofyn am fwy na £20,000 o gymorth gyflwyno'r canlynol fel rhan o'r cais:**

- Cynllun datblygu/Cynllun busnes 3 blynedd
- Nid yw arian cyfatebol yn hanfodol; fodd bynnag, argymhellir yn gryf y dylid ceisio am arian cyfatebol. Fe'ch cynghorir yn gryf i siarad â'r Swyddog Grantiau cyn cyflwyno'ch cais. Mae enghreifftiau o arian cyfatebol yn cynnwys - Arian Parod (cronfeydd eu hunain neu ariannwr arall), Amser gwirfoddolwyr neu gyfraniadau mewn nwyddau eraill, Asedau, ac ati.
- Uchafswm y grant y gellir gwneud cais amdano yw **£75,000 dros gyfnod o 3 blynedd** – OND gellir ystyried ceisiadau mwy o dan amgylchiadau arbennig (Cysylltwch â rheolwr y gronfa i drafod)
- **Ni all mudiadau dderbyn mwy na £75,000 mewn cyfanswm o grantiau trwy GYM dros gyfnod o 3 blynedd (dilynnol)**

### Gwybodaeth Hanfodol Arall:

- Mae Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr yn gallu cefnogi prosiectau cyfalaf a refeniw.
- Bydd angen i grwpiau newydd heb gyfrifon archwiliedig gyflwyno cyfriflen banc diweddar.
- Disgwylir i ymgeiswyr ddangos cefnogaeth y gymuned i'r prosiect trwy lythyrau annibynnol / tystiolaeth e-bost/llythyrau o gefnogaeth gymunedol (5 ar y mwyaf)
- **Os oes angen caniatad cynllunio ar gyfer eich prosiect – gwnewch yn siŵr bod caniatâd cynllunio yn ei le, neu o leiaf bod ymholiad cyn-gynllunio wedi'i wneud cyn cyflwyno'r cais hwn gan fod materion fel cynllunio a gwaith strwythurol yn aml yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl a gallant ohirio unrhyw ddyfarniad grant posibl a thaliad dilynol.**
- Canlyniadau mesuradwy o'ch prosiect

Gofynnir i grwpiau gyflwyno'r wybodaeth atodol ganlynol:

- Copi o gyfansoddiad y sefydliad
- Polisïau Cyfleoedd Cyfartal, Diogelu ac Iaith – os yn berthnasol
- Dyfyn-brisiau neu amcangyfrifon ysgrifenedig
- Copi o'r cyfrifon diwethaf sydd ar gael
- Datganiad banc diweddar
- Tystiolaeth o angen y prosiect (ymgynghoriadau cymunedol, adborth ac ati)

**Ar ôl derbyn unrhyw grant:**

Bydd y person cyswllt yn derbyn llythyr sy'n amlinellu penderfyniad y panel. Os yw eich cais yn llwyddiannus, rhaid i chi gytuno i'r canlynol:


- Cyflwyno derbynebau am yr holl wariant
- Cyflwyno adroddiadau yn unol â phob cais (bydd y rhain yn cyfateb i faint a chymhlethdod eich prosiect)
- Defnyddio'r arian yn union fel y nodwyd yn eich cais oni bai eich bod wedi derbyn cytundeb ymlaen llaw gan CVSC
- Rhoi cyhoeddusrwydd i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr

## COFIWCH SIARAD Â SWYDDOG GRANT YN CVSC CYN CYFLWYNO EICH CAIS.

**DIOGELU DATA AC AWDURDODI DEFNYDD**
Bydd Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC), sy'n gweithredu ar ran Cronfa Budd Cymunedol Gwynt y Môr, yn defnyddio'r wybodaeth yn eich ffurflen gais, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i brosesu eich cais am gyllid. Mae hyn yn cynnwys rhannu'r wybodaeth yn llawn gyda'n partneriaid yn DVSC, FLVC, Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy ac RWE. Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhoi mewn bas data sy'n cael ei ddefnyddio gan CGGC a'i bartner Cefnogi Trydydd Sector Cymru (mae rhagor o wybodaeth a'n hysbysiad preifatrwydd ar gael yn https://thirdsectorsupport.wales/privacy) Bydd gwybodaeth at ddibenion adborth hefyd yn cael ei rhoi ar system RWE renewables trwy ein sustem ni a byddant yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw tra bydd prosiect GYM yn para ac wedyn bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel

**Dychwelwch y Ffurflen Gais wedi'i llenwi a'r dogfennau ategol at:**

**e-bost**: grants@cvsc.org.uk **Tîm Grantiau CGGC**: 01492 523845


Legend
0 2,050 4,100 8,200 Meters
Area of Community Benefit
Overlapping community boundaries
Route of export cables to substation
Wind Farm site boundary
Created by: LH
Checked by: KW
Date: 11/06/2015
Rev: v1
Content custodian:
The content of this map can only be modified with the consent of the above named person
Reproduced by permission of Ordnance Survey on behalf of HMSO.
© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 0100031673.
RWE
The energy to lead
RWE Innogy UK Ltd
Unit 22
Baglan Bay Innovation Centre
Baglan Energy Park
Central Avenue
Port Talbot
SA12 7AX
T +44 (0)1639 816180
I www.rwe.com/uk
Sheet size: A3
Scale of original: 1:145,000
Site:
Gwynt y Mor
Title:
Proposed area of community benefit for Gwynt y Mor Wind Farm
© Copyright RWE Innogy UK Ltd. No part of this map may be reproduced without prior permission